Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymweliad

Ysbyty'r Sir: Ward Rowan

Tachwedd 2022



# Pam y gwnaethom ymweld â Ward Rowan?

Fel Cyngor Iechyd Cymuned, mae dyletswydd statudol arnom i fonitro a chraffu ar wasanaethau iechyd, rydym yn ymrwymedig i gynnal nifer o ymweliadau wyneb yn wyneb er mwyn cael adborth gan bobl ar y pwynt lle maent yn cael gofal. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar yr hyn a glywsom gan y bobl am eu profiadau o fod yn glaf ar Ward Rowan, Ysbyty'r Sir.

Aeth ein haelodau gwirfoddol i Ward Rowan, Ysbyty'r Sir ddydd Mercher 23 Tachwedd 2022 ar ymweliad dirybudd. Diben yr ymweliadau hyn oedd sefydlu lefel boddhad y cleifion, ansawdd ac effeithiolrwydd yr amgylchedd ac arsylwi ar y staff yn rhyngweithio â'r cleifion.

Yn ystod y pandemig a’r cyfyngiadau a oedd ar waith, nid oeddem yn gallu ymweld â’r ward hon a siarad â chleifion wyneb yn wyneb. Yn lle hynny, anfonwyd arolygon cleifion i’r ward hon yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2021. Wrth i gyfyngiadau lacio, roedd yn bwysig i ni ailymweld â’r ward hon i gael adborth gan gleifion ar y pwynt lle maent yn cael gofal.

Er mwyn cwblhau'r ymweliad hwn, casglwyd gwybodaeth drwy arolygon cleifion, ffurflen amgylchedd y ward a ffurflen arsylwi ar amser prydau. Er mwyn sicrhau diogelwch pawb dan sylw, cynhaliodd aelodau'r CIC brawf llif unffordd ar fore'r ymweliad.

Hoffai'r CIC ddiolch i Joanne Hook, Uwch Nyrs a fu'n garedig iawn yn cynorthwyo'r tîm a fu'n ymweld â'r ward ac a roddodd ddiweddariad iddynt ar y gwelliannau a wnaed ers ein hymweliad diwethaf â'r ysbyty hwn.

## Yr hyn a ganfuom:

Yn ystod yr ymweliad â Ward Rowan, treuliodd yr aelodau amser yn arsylwi'r adran ac yn siarad â'r bobl a oedd ar yn aros ar y ward yn eu holi am eu profiad.

Nid yw'r arwyddion sy'n dangos y ffordd ar dir yr ysbyty yn glir, sy'n ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i'ch ffordd o amgylch y safle.

Mae ymwelwyr yn curo'r drws er mwyn mynd i mewn i Ward Rowan; ni ellir defnyddio bysellbad mynediad am resymau diogelwch. Os bydd ymwelwyr yn dymuno gadael y ward, mae angen cod, a roddir iddynt gan staff. Caiff y cod ei newid yn aml.

1. *Y Ward:*

Wrth gyrraedd y ward, roedd y staff yn gwirio bathodynnau adnabod y tîm ymweld cyn iddynt fynd i mewn. Gwelwyd bod yr allanfeydd tân yn glir ac roedd hysbysiadau tân wedi'u harddangos yn glir.

Hysbyswyd y tîm ymweld bod y ward wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar, a bod hyn i'w weld wrth ddod i mewn i'r ward. Roedd fframiau drysau i ardaloedd y cleifion wedi'u paentio mewn lliwiau gwahanol, fel y gallai pobl adnabod ardaloedd y gwelyau yn hawdd. Yr un oedd y drefn ar gyfer mannau hygyrch i gleifion megis yr ystafelloedd ymolchi, y toiledau, yr ystafell ddydd a'r ystafell ardd. Peintiwyd fframiau'r drysau mewn lliwiau gwahanol gyda llun ar y drws yn egluro beth oedd pwrpas yr ystafell.

Nododd y tîm ymweld bod y lefelau sŵn ar y ward yn foddhaol yn ystod yr ymweliad. Fodd bynnag, gall hyn newid yn ddibynnol ar anghenion cleifion. Dywedwyd wrth y tîm bod boeler newydd wedi'i osod yn ystod y gwaith adnewyddu diweddar, sy'n golygu

bod y tymheredd ar y ward wedi'i osod ymlaen llaw. Ni welwyd unrhyw beryglon baglu yn llwybrau cerdded y ward, ac roedd y Ward yn lân heb unrhyw arogleuon annymunol.

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd sebon ar gael yn rhan fwyaf o'r toiledau/ystafelloedd ymolchi. Codwyd y mater hwn gydag uwch nyrs ar adeg yr ymweliad, a ddywedodd wrthym y byddai mwy o sebon yn cael ei roi yn y toiledau/ystafelloedd ymolchi.

Mae'r ystafell feddyginiaeth wedi'i chloi gan ddefnyddio cod, ac mae angen defnyddio olion bysedd er mwyn cael mynediad i ddosbarthu'r feddyginiaeth.

Mae 18 o welyau ar Ward Rowan, ac ar ddiwrnod ein hymweliad roedd y ward yn cefnogi 14 o ddynion a 4 menyw.

Ar adeg yr ymweliad roedd pump unigolyn yn aros i gael eu rhyddhau. Dywedwyd wrth y tîm mai 25 o ddiwrnodau oedd yr amser aros ar gyfartaledd i ryddhau rhywun. Mae sawl rheswm dros oedi wrth ryddhau rhywun o'r ysbyty, megis aros am leoliadau mewn cartrefi gofal, pecynnau gofal yn y gymuned a dywedwyd hefyd bod awdurdodau lleol yn oedi.

Gan fod y ward wedi’i phaentio’n ddiweddar, nid oedd hysbysfwrdd yn cynnig y wybodaeth ganlynol:

- Lefelau staff nyrsio
- Taflenni Gwybodaeth
- Y Weithdrefn Gwyno
- Gwybodaeth am staff

Er nad oedd y wybodaeth hon wedi'i harddangos ar adeg yr ymweliad, hysbyswyd y tîm bod y bobl yn cael pecyn gwybodaeth ar ôl cyrraedd y ward.

Nid oedd y cyfrifiaduron a oedd mewn mannau agored yn arddangos gwybodaeth am gleifion ac nid oedd unrhyw drolïau nodiadau meddygol yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth.

Dywedodd rheolwr y ward wrth y tîm ymweld nad oedd hysbysfwrdd cleifion ar y ward. Mae hyn am fod yr holl

wybodaeth yn cael ei chofnodi'n electronig ar lwyfan Safonau Gofal Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd y byddai o fudd i ymwelwyr pe gallent weld dangosfwrdd cleifion wrth ddod i mewn i'r ward.

Nid oedd gan y Ward system dolen sain, ond roedd penwisg ar gael i'w ddefnyddio os oedd angen.

Os nad Saesneg yw iaith gyntaf person, byddai staff y ward yn siarad â theulu/ffrindiau'r claf.

Roedd gan y ward gyflenwad digonol o ddillad gwely, a oedd wedi'i storio mewn amgylchedd glân a chanfuwyd ei fod o ansawdd boddhaol.

Dywedwyd wrth y tîm ymweld bod amrywiaeth o wirfoddolwyr yn mynychu Ward Rowan, gan gynnwys:

- Mae gwirfoddolwyr gofal lliniarol yn mynychu'r ward os bydd rhywun yn derbyn gofal diwedd oes a heb deulu neu ffrindiau i ymweld â nhw. Mae hyn yn cynnig cysur a chwmnïaeth i'r person.

- Mae gwirfoddolwyr Ffrind i Mi y Bwrdd Iechyd hefyd yn mynychu'r Ward.

- Mae gan y Ward hefyd ddau gi therapi sy'n ymweld â phobl.

## 1.1 *Staff:*

Nid oedd y staff yn y ward hon wedi ymgynnull ond roeddent yn barod wrth law ar gyfer cleifion, gan wisgo gwisg briodol a bathodynnau enwau.

Yn ystod yr ymweliad roedd dwy Nyrs gofrestredig ar ddyletswydd a thri Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd. Roedd un o'r Nyrsys a dau o'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn aelodau o staff asiantaeth.

Ni lwyddodd yr aelodau i nodi a oedd unrhyw aelodau o'r staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Nododd y tîm ymweld bod y staff yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar.

## 1.2 *Ardaloedd i gleifion:*

Roedd yr ardal o amgylch gwelyau'r bobl ar y ward yn lân ac yn daclus gyda digon o le i ymwelwyr.

Wrth i aelodau gerdded o amgylch ardaloedd y gwelyau, gwelsant nad oedd unrhyw beryglon baglu posibl o amgylch gwelyau.

Mae digon o le i'r bobl storio eu heiddo, ond nid oedd yn glir a oedd modd cloi'r storfa.

Mae gan ardaloedd y gwelyau lenni sy'n cau'n llwyr er mwyn rhoi preifatrwydd i'r bobl pan fo angen. Hefyd, roedd y bobl a oedd mewn ystafell wely sengl yn gallu cau eu drws er mwyn cael preifatrwydd.

Gall y bobl gyrraedd y larymau yn hawdd, er bod rhai problemau â'r larymau ar ddiwrnod yr ymweliad. Roedd y staff yn ymwybodol o hyn, a dywedwyd wrth y tîm ymweld fod y ward yn cael problemau â'r larymau o dro i dro.

Roedd gan y bobl a oedd yn aros ar y ward fwrdd gwyn y tu ôl i'w gwely, a oedd yn nodi eu hoffterau, megis yr enw yr oeddent yn ei ffafrio, eu hoff bethau a'u cas bethau, alergeddau ac ati.

## 1.3 *Activities:*

Roedd yn braf nodi bod llawer o weithgareddau i'r bobl ar ward Rowan.

Mae teledu yn yr ystafell ddydd, cwisiau, celf a chrefft a gardd i'r bobl eu defnyddio. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae dau gi therapi yn ymweld â'r ward, a dywedwyd wrth y tîm ymweld hefyd, os bydd y bobl yn aros ar y ward am amser hir, y gallant gael eu ci eu hunain i ymweld â nhw.

Mae cynlluniau i sefydlu swyddfa bost mewn rhan o'r ystafell ddydd i annog y bobl i ysgrifennu llythyrau at ffrindiau/teulu tra yn yr ysbyty. Maent hefyd yn bwriadu agor ardal trin gwallt yn yr ystafell ddydd, a chael teledu mwy o faint.

Yn ystod y pandemig, ymgysylltodd y ward ag ysgol gynradd leol drwy ddefnyddio Zoom a menter “gwenu mewn bag”. Gwnaeth y gwaith hwn, ynghyd â gweithgareddau ystyrlon eraill, dderbyn dwy wobr ac mae'n cael ei weld fel menter enghreifftiol i wardiau eraill ddysgu ohoni.

Wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio, mae cynlluniau i ddisgyblion ysgol ymweld â’r bobl sy’n aros ar y ward a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod mis Rhagfyr.

Mae aelod o staff ar Ward Rowan sy'n trefnu'r gweithgareddau i gleifion. Yn ystod yr ymweliad, nodwyd bod gweithgareddau'n cael eu trefnu yn yr ystafell ddydd i'r bobl gymryd rhan ynddynt.

Mae “bwrdd hud” wedi'i osod yn yr ystafell ddydd, sef taflunydd cludadwy sy'n arddangos delweddau ar fwrdd ac sy'n rhyngweithiol. Er enghraifft, os caiff delweddau o falŵns eu taflu ar y bwrdd, gall y bobl dapio'r balŵns a byddant yn popio.

### 1.4 *Arsylwi ar amser prydau:*

Arsylwodd y tîm ymweld bod awyrgylch digynnwrf yn ystod amser prydau a bod y staff ar y ward yn barod i dderbyn y troli bwyd ac i helpu'r bobl â'u prydau bwyd.

Roedd y staff yn helpu'r bobl i symud i safle cyfforddus i fwyta, ac yn eu helpu i fwyta eu prydau.

Nid oedd y troli bwyd wedi'i blygio i mewn yn ystod amser prydau.

Roedd cyllyll a ffyrc wedi'u haddasu ar gael i'r bobl oedd eu hangen, i'w cefnogi i fwyta'n annibynnol

Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y staff yn annog hylendid dwylo cyn i'r bwyd gael ei weini.

Dywedwyd wrth y tîm ymweld bod yr ysbyty bellach yn archebu prydau wedi'u rhewi gan gwmni. Yna caiff y bwyd ei gynhesu a'i anfon i'r wardiau ar y trolïau bwyd. Hysbyswyd y tîm ymweld hefyd y gofynnir i'r bobl ddewis eu prydau dau ddiwrnod ymlaen llaw. Gall hyn achosi problemau gan y bydd y bobl yn aml yn anghofio pa brydau y maent wedi'u harchebu.

Rhoddodd tri pherson yr adborth canlynol i ni ynghylch y bwyd ar y ward:



| | **Da iawn** | **Da** | **Iawn** | **Gwael** | **Gwael iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd y bwyd** | | 2 | 1 | | |
| **Tymheredd y ward** | | | 3 | | |
| **Cyflwyniad y bwyd** | | | 3 | | |
| **Maint y prydau bwyd** | | | 3 | | |
| **Y dewis o fwyd ar y fwydlen** | | | 3 | | |

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym nad oeddent yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo cyn bwyta eu bwyd, dywedodd rhai pobl eu bod yn defnyddio hylif diheintio dwylo eu hunain ac nad oes angen eu hannog i wneud hynny.

Dywedodd y bobl eu bod bob amser yn cael y pryd yr oeddent wedi'i archebu a'u bod yn hapus gyda lefel y cymorth a gawsant i fwyta ac yfed.

Clywsom hefyd bod byrbrydau ar gael i'r bobl yn ystod y dydd a gyda'r nos ac roeddent yn teimlo bod eu jwg dŵr yn cael ei newid yn ddigon aml.

Clywsom fod y bobl yn cael dewis ble i fwyta eu prydau.

## Adborth gan gleifion

Siaradodd y tîm ymweld â thri pherson a oedd yn aros ar Ward Rowan yn ystod yr ymweliad. Nid oedd gan unrhyw un o'r rhain broblemau cyfathrebu a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Dywedodd dau berson y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi cael taflen wybodaeth pan gawsant eu derbyn i'r Ward.

Dywedodd pob un ohonynt wrth y tîm fod staff yn cyflwyno eu hunain cyn iddynt ddarparu gofal a'u bod yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt a/neu eu perthnasau wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Dywedodd dau berson wrthym fod y staff yn gynnil "ar y cyfan" wrth drafod eu gofal/triniaeth â nhw.

Dywedodd y tri pherson eu bod yn teimlo bod y staff yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas. Dywedodd un person wrthym ei fod "yn bendant" yn teimlo fel hyn a dywedodd person arall wrthym fod y staff "yn barod iawn eu cymwyna". Fodd bynnag, teimlai rhai nad oedd digon o aelodau o staff ar y ward i ddiwallu eu hanghenion yn ystod y dydd a'r nos.

Sylwadau:

*"Mae'r staff yn brysur iawn"*

*"Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o staff, fel nad ydynt mor brysur"*

*"Nid oes digon o staff ar adegau, ac maent wedi'u gorlethu"*

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gyfforddus, a bod ganddynt ddigon o flancedi a gobenyddion. Roeddent hefyd yn gallu cael cawod a golchi eu gwallt mor aml ag y dymunent.

Cafwyd adborth cymysg gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw am y gweithgareddau y mae ganddynt fynediad iddynt. Dywedodd y rhan fwyaf wrthym fod ganddynt fynediad at eu dyfeisiau electronig eu hunain yr oeddent wedi dod o'u cartrefi.

Roedd dau berson yn ansicr a oedd gweithgareddau ar y ward y gallent ymuno â nhw. Dywedodd y bobl hyn wrthym hefyd nad oedd ganddynt fynediad at deledu yn ardaloedd eu gwelyau, dim ond yn yr ystafell ddydd.

Roedd y bobl yn ansicr a oedd ystafell/man preifat y gallent ei ddefnyddio i wneud galwadau ffôn neu weld ymwelwyr gan nad oeddent wedi gofyn i'r staff.

Pan wnaethom ofyn i bobl beth oedd wedi bod yn bleserus am eu hamser ar y ward, dywedodd un person wrthym *"(staff) caredig a da"*. Dywedodd person arall wrthym hefyd *"Mae'r olygfa o fy ffenest yn ddymunol"*

Gofynnodd y tîm hefyd ofyn a oedd unrhyw welliannau neu sylwadau gan y bobl, a dywedwyd y canlynol wrthym:

*"Does dim byd i'w wneud drwy'r dydd yma"*

*"Teledu er mwyn gwylio'r newyddion"*



# Argymhellion

1) Byddai'r CIC yn falch pe gellid rhannu'r sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn â'r staff ar Ward Rowan. Rhoddir cydnabyddiaeth i'r ward a'r Tîm am addurno'r amgylchedd sy'n helpu i gyfeirio pobl at swyddogaethau'r ystafell drwy ddefnyddio gwahanol liwiau a lluniau.

2) Er yr hysbyswyd y CIC am amrywiaeth o weithgareddau rhagorol a chynlluniau gwirfoddoli ar y Ward, nid oedd yn ymddangos bod rhai pobl yn ymwybodol o'r gweithgareddau a oedd ar gael iddynt, er bod rhai wedi derbyn taflen wybodaeth. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r angen hwn i godi ymwybyddiaeth.

3) Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r arwyddion ar safle'r Ysbyty.

4) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd adolygu’r adborth o ran y problemau yr adroddwyd am larymau ar y Ward (ac amlder y problemau yr adroddwyd amdanynt).

5) Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd egluro a oes gan bobl fynediad at storfa y gellir ei chloi wrth ymyl eu gwelyau.

6) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd adolygu’r lefelau staffio ar Ward Rowan o ganlyniad i adborth pobl.

7) Gofynna'r CIC a fyddai'n ymarferol gwneud nodiadau atgoffa o ran dewis pryd, er mwyn helpu pobl i gofio pa brydau y maent yn eu dewis ar gyfer diwrnod penodol, o ystyried bod ceisiadau dewis pryd yn cael eu gwneud ddau ddiwrnod ymlaen llaw.

# Manylion cyswllt

Aneurin Bevan Community Health Council
Raglan House
William Brown Close
Llantarnam Business Park
Cwmbran
NP44 3AB

01633 838516

**Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk**

**www.aneurinbevanchc.nhs.wales**

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

# Atodiad 1 – Canlyniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Arolwg

Nifer y bobl a gwblhaodd y Cwestiynau am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth: 1

| Dewis Iaith | | |
|---|---|---|
| **English** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 1 | 0 | |

| Rhywedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menyw/Merch** | **Dyn/Bachgen** | **Anneuaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws? | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | **Nac ydw** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Heb ateb** |
| 0 | 1 | 0 | 0 |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anrhywiol** | **Deurywiol** | **Hoyw** | **Lesbiaidd** | **Heterorywiol/ Syth** | **Panrywiol** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Mis a Blwyddyn geni**

| Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Medi** | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** | **1950-54** | **Heb ateb** | | |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | | |

**Ethnigrwydd**

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:**

| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Du neu Ddu Prydeinig:**

| Affricanaidd | Caribïaidd | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

**Gwyn:**

| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
|---|---|---|---|
| 1 | 0 | 0 | 0 |

**Grŵp Ethnig arall:**

| Arabaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

**Crefydd neu gred**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Heb ateb | 0 | | | |

| **A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 1 | 0 | 0 | 0 |

| **A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 0 | 1 | 0 | 0 |

| **A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb ateb | Byddai'n well gennyf beidio â dweud |
| 0 | 1 | 0 | 0 |

## Atodiad 2

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd **polisi/gweithgarwch/adroddiad y CIC** yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd | x | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| defnyddio technoleg ddigidol | | | | |

## Asesiad Risg

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**<br>Amherthnasol |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br>Amherthnasol |
| **Y Gymraeg**<br>Mae'r ddogfen hon/polisi/adroddiad hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br>i) 37, 38<br>ii) 69, 70, 71<br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gallwn ddangos y canlynol:<br>Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br>**Canlyniad**<br>Effaith gadarnhaol –<br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg<br>Effaith Negyddol – Dim |

## Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.